# Datblygu a gweithredu polisi rheoli gofal ceffylau a stablau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi rheoli gofal ceffylau a stablau ar gyfer gweithio neu fagu ceffylau, er mwyn gwella eu hiechyd a'u cyflwr. Mae'r safon ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am benderfyniadau gwneud polisïau a rheoli ceffylau.

Mae hefyd yn cynnwys rheoli'r ceffylau o dan straen, yn cynnwys gallu adnabod pan fydd angen cymorth arbenigol ar geffyl, cyfathrebu gyda'r arbenigwr, gwerthuso effeithiolrwydd mewnbwn arbenigol a chynnydd y ceffyl.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. datblygu polisi rheoli gofal ceffylau a stablau yn seiliedig ar werthuso lles a ffitrwydd ceffylau, y cynllun busnes ac adnoddau staff
2. sicrhau bod dyluniad yr iard ac adeiladwaith y stabl yn addas at ddefnydd ceffylau
3. sicrhau bod nodau ac amcanion y polisi'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau'r diwydiant
4. cyfathrebu a gwneud y polisi ar gael i'r personél perthnasol
5. goruchwylio gweithredu'r polisi yn effeithiol
6. sicrhau bod dillad ac offer amddifynnol personol priodol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
7. dewis a gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch priodol a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal
8. trefnu llety, amgylchedd a gofal dyddiol addas ar gyfer y ceffyl
9. monitro iechyd a lles y ceffyl a gwerthuso yn erbyn polisi gofal ceffylau
10. nodi'r angen am fewnbwn arbenigol a chymryd camau priodol
11. sicrhau bod y gweithredoedd a ragnodir gan yr arbenigwr yn cael eu cynnal gan bersonél perthnasol
12. cael adborth ar ymateb y ceffyl i fewnbwn arbenigol gan bersonél perthnasol
13. gweithredu'n briodol mewn ymateb i unrhyw faterion iechyd a lles
14. cyfathrebu'n effeithiol gyda staff bob amser
15. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
16. gwerthuso'r polisi yn erbyn y nodau a'r amcanion a nodwyd yn ystod cyfnodau y cytunwyd arnynt
17. gweithredu ar y penderfyniadau yn sgil y gwerthusiad yn brydlon
18. asesu peryglon a rheoli risg i geffylau, chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
2. eich cyfrifoldebau yn unol a deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch.
3. y dillad a'r offer amddiffynnol personol y dylid eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
4. sut i werthuso lles y ceffyl yn erbyn y cynllun busnes a'r adnoddau staff er mwyn datblygu polisi rheoli gofal ceffylau a stablau
5. sut i fonitro a gwerthuso'r polisi yn erbyn y nodau a'r amcanion
6. y parasitiaid mewnol sy'n effeithio ar geffylau a dyluniad rhaglenni rheoli parasitiaid
7. y gofynion ar gyfer traed a phedoli, yn cynnwys pedoli adferol
8. y rhaglenni brechu a sicrhau NEU werthuso?? eu cynnwys yn y polisi
9. y mathau o stabl, cartref a gwely a'u heffaith ar iechyd a lles y ceffyl
10. pwysigrwydd gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch a sut y gellir cyflawni hyn
11. ffisioleg a seicoleg ceffylau
12. arferion effeithiol rheoli stablau
13. y rheoliadau deddfwriaeth, lles, yswiriant a phasbort perthnasol
14. rheoli staff a phersonél
15. gofal ceffylau hŷn, ceffylau wedi ymddeol a cheffylau ar ddiwedd eu bywyd gwaith
16. sut i asesu cyflwr, iechyd a lles ceffylau
17. y ffactorau sydd yn pennu pryd mae angen mewnbwn arbenigol
18. y berthynas rhwng arbenigwyr a grwpiau proffesiynol gwahanol, rôl therapïau amgen, y ffisiotherapydd a'r maethegydd
19. y diffiniad o straen a gallu adnabod a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at straen i geffylau
20. dulliau triniaeth ar gyfer categorïau gwahanol o salwch, yn cynnwys salwch metabolaidd, trawma, clefyd a chloffni
21. goblygiadau peidio gweinyddu triniaeth yn gywir a phwysigrwydd monitro'r ymateb i'r driniaeth

# Datblygu a gweithredu polisi rheoli gofal ceffylau a stablau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq401 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; gofal; polisi |